**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 864

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2019

**Gohirio'r dyddiad perthnasol ar gyfer gwasanaeth perthnasol sy'n ddarostyngedig i broses ganslo**

**6.**—(1) Pan fo gwasanaeth perthnasol, ar y dyddiad perthnasol a bennir yn erthygl 4(4), yn ddarostyngedig i broses ganslo, caiff y dyddiad perthnasol ei ohirio tan y dyddiad sydd 6 wythnos ar ôl y dyddiad pan benderfynir yn derfynol ar y broses ganslo.

(2) Mae gwasanaeth perthnasol yn ddarostyngedig i broses ganslo os yw hysbysiad gwella o dan adran 16(2) o'r Ddeddf wedi ei roi i ddarparwr y gwasanaeth perthnasol, cyn y dyddiad perthnasol a bennir yn erthygl 4(4), gyda golwg ar ganslo'r cofrestriad o dan adran 15 ac na phenderfynir yn derfynol ar y broses erbyn y dyddiad hwnnw.

(3) Penderfynir yn derfynol ar broses ganslo—

(a) pan benderfynir ar unrhyw apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn y canslo neu pan roddir y gorau i unrhyw apêl o'r fath;

(b) pan yw hysbysiad o benderfyniad o dan adran 17(2), (3)(a) neu (5) o'r Ddeddf wedi ei gyflwyno a bod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y caniateir i apêl gael ei gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ynddo wedi dod i ben; neu

(c) pan hysbysir darparwr y gwasanaeth perthnasol o dan adran 17(1) neu (4) o'r Ddeddf.